| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 29 Tachwedd 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gary Williams |
| **Teitl:** | **Polisi Rhannu Pryderon - Adroddiad Blynyddol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn trafod gweithrediad Polisi Rhannu Pryderon y Cyngor ers yr adroddiad blynyddol diwethaf ym mis Gorffennaf 2016.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â Pholisi Rhannu Pryderon y Cyngor, sy'n cynnwys gofyniad bod y Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn o leiaf unwaith y flwyddyn ar weithrediad y Polisi ac unrhyw newid mewn ymarfer a gyflwynwyd o ganlyniad i bryderon a godwyd o dan y Polisi.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

Ym mis Ebrill 2016, cymeradwyodd y Cyngor y Polisi Rhannu Pryderon a oedd wedi'i ddiweddaru a'i ddiwygio. Mae hefyd gofyniad yn y polisi hwn bod y Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar weithrediad y Polisi o leiaf unwaith y flwyddyn.

Yn dilyn mabwysiadu'r Polisi cynhaliwyd gweithgaredd codi ymwybyddiaeth. Rhoddwyd y polisi ar y fewnrwyd yn yr haf 2016 ac yna cafodd ei gyfathrebu drwy neges y Prif Weithredwr. Mynychwyd cyfarfod clwstwr yr ysgol gan Swyddogion i drafod y polisi a'r newidiadau a oedd wedi'u gwneud. Crëwyd cyflwyniad safonol ar y pwnc rhannu pryderon i sicrhau bod y neges a oedd yn cael ei rhannu yn gyson. Rhoddwyd y cyflwyniad ar y fewnrwyd hefyd. Yn ystod yr haf, mynychwyd cyfarfodydd rheoli adrannau gwasanaeth gan Bartneriaid Busnes ac Arbenigwyr, i drafod y newidiadau i'r polisi a chodi ymwybyddiaeth. Ym mis Mawrth 2017, cytunodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth y byddai'r 'modiwl e-ddysgu ar rannu pryderon' yn orfodol ar gyfer holl weithwyr presennol a newydd Sir Ddinbych. Nid yw'r platfform sy'n cynnal y modiwlau hyn wedi'i orffen eto ond gobeithir y bydd yn barod i'w lansio ym mis Ionawr

2018. Bydd yn bosib adrodd ar gyfraddau cwblhau ar gyfer y modiwl hwn hefyd. Mae’r Adran AD yn edrych ar gynnwys nodwedd arbennig ar y fewnrwyd a fydd yn canolbwyntio ar un polisi’r mis, er mwyn gallu amlygu polisi newydd, tynnu sylw at unrhyw newid sydd wedi’i wneud i bolisi a hefyd codi ymwybyddiaeth o bolisïau yn gyffredinol. Bydd y Polisi Rhannu Pryderon yn cael ei gynnwys.

Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf i’r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2016 a oedd yn cwmpasu’r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 13 Gorffennaf 2016. Yn ystod y cyfnod hwnnw, codwyd dau bryder o dan y Polisi.
Mae’r adroddiad hwn yn cwmpasu’r cyfnod o 14 Gorffennaf i'r presennol.

Yn ystod y cyfnod sy’n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn, ni chodwyd unrhyw bryder o dan y Polisi.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae trefniadau rhannu pryderon cadarn yn cefnogi llywodraethu da ar draws y Cyngor, sydd felly’n galluogi’r Cyngor i gyflawni’i flaenoriaethau’n effeithiol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Nid oes gofyniad am asesiad mewn perthynas â’r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi’i gynnal mewn perthynas â’r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae trefniadau rhannu pryderon cadarn o gymorth i gefnogi llywodraethu da ar draws
y Cyngor.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Yn absenoldeb Polisi a Gweithdrefn Rhannu Pryderon cadarn ac effeithiol y mae gweithwyr a thrydydd parti sy’n ymgysylltu â'r Cyngor yn gyfarwydd â hwy, mae perygl na fydd pryderon ynghylch camarfer yn dod i sylw'r Cyngor. Mae’n hanfodol bod gweithwyr yn deall y byddent yn cael eu diogelu pe baent yn codi pryder gyda’r gred resymol bod eu hadroddiad wedi ei wneud er budd y cyhoedd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad.